

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Risca Dental Practice, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 15 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ionawr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Risca Dental Practice, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 15 Hydref 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cafwyd 14 o ymatebion gan gleifion a chwech ymateb gan y staff yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i drin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod y practis yn cynnig triniaethau brys heb eu trefnu drwy ddynodi slotiau brys yn amserlen y deintydd.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael ym mhob rhan o'r practis a dywedodd y cleifion eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- I sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darpariaeth dda o wybodaeth ddwyieithog a defnydd da o nodiadau ac arwyddion priodol i ddangos i'r cleifion y gellid derbyn triniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- Roedd y dderbynfa a'r ardaloedd aros ar wahân, er mwyn sicrhau trafodaethau cyfrinachol a sensitif
- Addasiadau da i gleifion ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, yn lân ac wedi'i addurno i safon uchel. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cyfredol addas ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis yn ddiogel. Roedd y cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng ar gael yn hawdd ac mewn cyflwr da.

Roedd y cofnodion deintyddol yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn, ond nid oedd dewis iaith y claf yn cael ei gofnodi'n gyson.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datrys materion a godwyd yn yr asesiad risg tân
- Sicrhau y caiff dewis iaith cleifion ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Defnyddio rhestrau gwirio a argymhellir er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir
- Ystafell ddihalogi ddynodedig drefnus
- Cydymffurfiaeth dda â phelydrau-X gan gynnwys arwyddion priodol uwchben drysau'r practis.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn hawdd i'r staff fynd at y rheolwr cofrestredig, ac roedd y practis yn cael ei redeg yn effeithiol gyda llinellau adrodd clir i'r staff. Roedd y staff yn ymddangos fel petaent yn cael eu cefnogi yn eu rolau gyda thystiolaeth o arfarniadau rheolaidd. Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn dweud y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo.

Gwelsom fod proses sefydlu addas ar waith a oedd yn cael ei llofnodi gan uwch-reolwr pan fyddent wedi'u cwblhau. Gwelwyd tystiolaeth o gydymffurfiaeth dda â rhwymedigaethau proffesiynol y staff.

Er i ni nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau, roedd y practis yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- I sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant priodol i gyflawni eu dyletswyddau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisïau cynhwysfawr ar gael i helpu'r staff i ymgymryd â'u gwaith
- Roedd enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis

- Roedd y practis wedi gweithio mewn partneriaeth â phractis deintyddol cyfagos i gwblhau triniaethau mewn argyfwng.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 14 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Bob amser yn barod i helpu ac mae'r staff yn gwrtais."

"Gwasanaeth gwych, weithiau rhaid aros ond rwy'n fodlon ar y gwasanaeth a gefais."

"Gwasanaeth gwych yma bob amser! Staff cyfeillgar - rwy'n cael profiad da ym mhob apwyntiad."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol am ofal iechyd ar gael yn yr ardaloedd aros i gleifion, gan gynnwys canllawiau ar roi'r gorau i smygu a'r polisi cwynion. Roedd hyn yn cynnwys taflenni gwybodaeth, ffolder gwybodaeth i gleifion a hysbysfyrddau. Gwelsom fod gwybodaeth am gostau triniaeth hefyd yn cael ei harddangos.

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis. Byddai'r dderbynfa yn cael gwybod er mwyn rhoi taflenni gwybodaeth berthnasol i'r cleifion wrth iddynt adael.

Roedd enwau aelodau presennol y tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos. Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (13/14) a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall a bod y staff wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg. Nid atebodd yr ymatebydd arall y cwestiwn.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gyfeillgar a'u bod yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch. Gwelsom fod cytundeb cyfrinachedd y practis wedi cael ei lofnodi gan bob aelod o'r staff.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd deintyddion yn gweld y cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom fod gorchuddion ffenestri priodol ym mhob deintyddfa.

Roedd desg y dderbynfa ar wahân i'r ystafell aros. Roedd ystafell aros ychwanegol ar gael i fyny'r grisiau sy'n cynnig rhywfaint o breifatrwydd i'r cleifion. Dywedwyd wrthym y gallai trafodaethau cyfrinachol a galwadau ffôn gael eu cynnal naill ai yn y swyddfa i fyny'r grisiau neu mewn deintyddfa wag.

Roedd egwyddorion moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ystafell aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd yr holl ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (12/14) fod y prisiau wedi'u nodi'n glir cyn iddynt gael triniaeth, a dywedodd yr ymatebwyr eraill nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Dywedodd un claf a gwblhaodd holiadur AGIC:

"Fel unigolyn sy'n nerfus iawn o'r deintydd, ni allant wneud mwy i wneud y profiad mor gadarnhaol ag y gall fod."

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion os bydd unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiad. Cawsom wybod mai'r amser aros ar gyfartaledd rhwng apwyntiadau yw un a dwy wythnos.

Dywedwyd wrthym fod slotiau apwyntiadau mewn argyfwng yn cael eu cynllunio yn unol ag amserlen ddyddiol y deintydd i gleifion sydd angen gofal deintyddol brys, er byddai'r cleifion fel arfer yn ffonio rhwng 08:45am a 09:00am i sicrhau'r apwyntiadau hyn.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan gleifion pe bai angen triniaeth a gofal deintyddol brys arnynt y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Er y dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd pedwar ymatebydd nad oeddent yn gwybod.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Dywedodd un claf a gwblhaodd holiadur AGIC:

"Mae'r staff yn gyfeillgar, o gymorth ac yn mynd allan o'u ffordd i drefnu apwyntiadau sy'n gyfleus ar gyfer oriau gwaith."

Teg

Cyfathrebu ac laith

Gwelsom fod y wybodaeth ysgrifenedig a oedd i'w gweld yn y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Gwelsom fod gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill fel print bras ac mewn ffordd hawdd ei deall.

Dywedwyd wrthym fod sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn y practis. Gwelsom fod arwyddion 'Cymraeg' priodol yn y dderbynfa a bod y staff yn gwisgo

bathodynnau 'laith Gwaith' i ddangos i'r cleifion y gellid darparu gwasanaeth dwyieithog pe bai'n ddymunol.

Mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa, gan sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu triniaeth. Nid oedd cyfleuster trefnu apwyntiadau ar-lein ar gael. Roedd system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a bwllo ac aflonyddu yn y gweithle.

Dyweddodd y rhan fwyaf (13/14) o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Nid atebodd yr ymatebydd arall y cwestiwn hwn.

Wrth y fynedfa, gwelsom stepen fach er mwyn cyrraedd y practis ac roedd arwyddion i'w gweld yn rhoi gwybod i'r cleifion bod ramp symudol ar gael. Roedd cloch ar uchder priodol i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn er mwyn galw am gymorth, a gwelsom fod rhan o ddesg y dderbynfa yn is, eto ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Gwelsom fod gan y dderbynfa, yr ardal aros a dwy ddeintyddfa ar y llawr gwaelod ddrysau a oedd yn ddigon llydan i sicrhau mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn at eu triniaeth. Roedd cadeiriau deintydd eistedd i orwedd wedi'u gosod yn neintyddfeydd y llawr gwaelod, roedd gan y cadeiriau yn yr ardal aros freichiau ac roedd canllawiau ar hyd y grisiau i helpu cleifion ag anawsterau symudedd.

Gwelsom nad oedd toiled ar gael i gleifion yn y practis er nad oedd hyn yn cael ei gyfleu yn y daflen wybodaeth i gleifion. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis, a ddiwygiodd y daflen wybodaeth i gleifion yn briodol yn ystod yr arolygiad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da gydag ystafelloedd triniaeth mawr a oedd wedi'u goleuo'n dda a'u haerdymheru. Roedd y deintyddfeydd wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, ac yn dilyn cynllun cyson. Y tu mewn i'r practis, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda. Fodd bynnag, gwelsom fod polisi cynnal a chadw'r adeilad yn gryno ac nid oedd yn cynnwys digon o fanylder. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig a ddarparodd fersiwn wedi'i addasu'n briodol yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Roedd yr ardaloedd aros i gleifion yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon. Gwelsom fod trefniadau addas i'r staff newid eu dillad ac i storio eu heiddo personol. Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr a cyfredol ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld. Roedd yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd yn cael ei arddangos.

Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau fel cyfarpar yn methu, llyfogydd neu os bydd system yn methu. Gwelsom fod y cofnodion diogelwch nwy blynyddol, yr arolygiad bob pum mlynedd o wifrau a'r Profion Offer Cludadwy yn gyfredol.

Gwelsom fod gan y practis gontract cynnal a chadw cyfredol ar gyfer yr holl gyfarpar tân, a bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pob aelod o'r staff yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân ac roedd nifer addas o wardeiniaid tân wedi cwblhau hyfforddiant. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau wythnosol o gyfarpar diogelwch tân a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal, a bod yr allanfeydd tân yn glir ac nid oes dim yn eu rhwystro. Roedd asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion i'w gweithredu arnynt, gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol fel warden tân ac arolwg goleuadau annibynnol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau addas i ddatrys materion a godwyd yn yr asesiad risg a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'u cwblhau.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu'n addas mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Roedd

cyfleusterau hylendid dwylo priodol ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith i gefnogi arferion glanhau effeithiol a bod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus. Roedd polisi cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Fodd bynnag, gwnaethom edrych ar y polisi ar gyfer rheoli heintiau a drosglwyddir drwy anadlu a gweld bod angen ei ddiweddarau er mwyn ei wneud yn fwy perthnasol. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig a ddarparodd fersiwn wedi'i addasu'n briodol yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Roedd ystafell ddihalogi drefnus gyda system briodol er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'i ddefnyddio yn ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Cafodd trefniadau priodol ar gyfer dihalogi offer deintyddol aml dro eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom dystiolaeth o waith cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau cyfnodol o'r cyfarpar dihalogi. Gwelsom fod yr archwiliad atal a rheoli heintiau diweddaraf wedi'i gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis. Nodwyd gennym fod gwastraff clinigol y practis yn cael ei storio mewn cynwysyddion priodol mewn ardal allanol, ddiogel wrth aros iddo gael ei gasglu. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn y practis ac roeddent yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-04. Roedd trefniadau addas ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau'r staff a welsom.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC yn teimlo bod y lleoliad yn lân iawn ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau priodol ar waith a bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer cael gwared ar feddyginiaethau a chyffuriau brys yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio. Gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Dywedwyd wrthym y byddai digwyddiadau niweidiol yn ymwneud â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn. Gwelsom arwyddion yn cael eu harddangos i annog cleifion i roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis ac roedd yn seiliedig ar ganllawiau adfywio cenedlaethol cyfredol. Gallai'r rhain fod ar gael i gleifion ar gais. Gwelsom fod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd tystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Roedd system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y byddai angen cael meddyginiaethau a chyfarpar newydd. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl feddyginiaethau'n gyfredol.

Gwelsom dystiolaeth o wiriadau cynnal a chadw a gwasanaethau gofynnol ar gyfer y silindrau ocsigen a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ocsigen penodol BOC yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2024) 036 PSN 041 diweddar. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis a nododd nad oedd wedi derbyn y cylchlythyr hwn gan y bwrdd iechyd lleol. Gwnaed trefniadau i'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn a chafodd tystysgrifau cwblhau eu hanfon i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf yn drefnus yr olwg. Roedd niferoedd priodol o swyddogion cymorth cyntaf i sicrhau bod swyddog ar gael pe bai un arall yn sâl neu ar wyliau.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfarpar yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da.

Roedd y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel a bod arwyddion priodol wedi'u gosod uwchben pob deintyddfa. Gwelsom hefyd ddogfennaeth a oedd yn dangos bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw ac wedi cael y profion gofynnol a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith.

Gwelsom fod gwerthusiadau clinigol a chyfiawnhad ar gyfer pob cysylltiad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofnodion y claf a bod rhaglen sicrhau ansawdd ar waith mewn perthynas â phelydrau-X a oedd yn cynnwys lefelau dosau ac ansawdd delweddu. Gwelsom fod archwiliadau radiograffig wedi cael eu cwblhau.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff a oedd yn ymwneud â'r defnydd o belydrau-X wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom bolisi cyfredol addas ar waith mewn perthynas â diogelu ac mae'r practis yn gallu cael gafael ar y canllawiau Diogelu Cymru Gyfan diweddaraf. Roedd gan y practis arweinydd diogelu dynodedig wedi'i benodi ac roedd manylion cyswllt y tîm diogelu lleol perthnasol ar gael ym mhob deintyddfa ac ystafell staff er mwyn eu defnyddio'n hawdd os bydd pryder.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar wybodaeth am brosesau amddiffyn plant ac oedolion, ac roeddent yn gwybod â phwy i gysylltu pe bai ganddynt bryder.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a chawsom sicrwydd bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn pan oedd triniaeth yn cael ei darparu.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio wedi'u hargymell i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir a bod cyngor proffesiynol perthnasol ar gael i'r staff fel y bo angen.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol o amser yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom adolygu cofnodion deintyddol deg claf , ac ar y cyfan, gwnaethom ystyried bod y rhain yn dda iawn. Roedd gan bob cofnod ddynodyddion cleifion addas, y rheswm dros yr apwyntiad gan gynnwys y symptomau ar gofnod. Roedd yr holl gofnodion a welsom yn cynnwys hanes deintyddol blaenorol ac roeddent yn nodi bod yr hanes meddygol yn cael ei wirio ym mhob ymgynghoriad. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos tystiolaeth o waith cynllunio triniaeth, gan gynnwys opsiynau ar gael, a bod cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i dderbyn gan gleifion cyn bob triniaeth.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi a allai eu hatal rhag cael gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Clywsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Gwelsom fod lefelau rhagorol o gyfathrebu rhwng y tîm i sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu monitro a'u trin yn brydlon.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a bod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon gyda gofal deintyddol brys yn cael ei gynnal o amgylch apwyntiadau arferol wedi'u trefnu ymlaen llaw. Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei defnyddio i alluogi'r staff i ail-lenwi apwyntiadau a oedd wedi'u canslo.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig sydd, ynghyd â rheolwr y practis, yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Roedd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a hysbysiadau diogelwch gofal iechyd brys â'r tîm o staff, gan gynnwys cyfarfodydd tîm strwythuredig rheolaidd a grwpiau Whatsapp y practis. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfodydd a'u bod yn cael eu rhannu ag aelodau o staff a oedd yn absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith. Gwnaethom drafod rhoi system ar waith i gadarnhau bod y staff wedi darllen y rhain.

Gwelsom amrywiaeth dda o bolisiau wedi'u hysgrifennu'n dda, ac roedd rhif fersiynau wedi'u nodi ar y polisiau sydd ar gael i'r staff er mwyn eu cefnogi yn eu rolau. Roedd y practis yn cadw cofrestr o bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn cael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Roedd prosesau priodol ar waith i roi gwybod i'r staff am unrhyw ddiweddariadau.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Roedd y ddwy ddogfen wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo a gwnaethant gytuno bod eu patrwm gwaith presennol yn rhoi cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd. Cytunodd y rhan fwyaf o'r staff (5/6) bod cyfleoedd teg a chyfartal ar gael iddynt yn y gweithle, ac roeddent yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nid atebodd yr ymatebydd arall y cwestiynau hyn.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Mae pum deintydd, un hylenydd a chwe nyrs ddeintyddol yn nhîm y practis. Gwelsom fod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Dywedodd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a'u bod yn gallu bodloni'r gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith. Cytunodd pob aelod o'r staff hefyd bod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael yn y practis i gynghori'r staff pe bai'r angen yn codi. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn agored a'i bod yn hawdd i'r staff fynd atynt, a bod ysbryd tîm da ymysg y staff.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practis deintyddol. Gwelsom fod proses sefydlu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Nodwyd gennym fod uwch-reolwyr yn cadarnhau bod aelodau newydd o staff wedi cwblhau'r pynciau unigol.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys, tystiolaeth o yswiriant indemniad, a, lle y bo'n berthnasol, cofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystiolaeth o imiwneiddiadau Hepatitis B a chofnodion sgrinio iechyd eraill i'w gweld ar gyfer pob aelod o'r staff. Cawsom wybod bod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau a hyfforddiant y gweithlu yn cael ei monitro gan dîm rheoli'r practis.

Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff (5/6) a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl, ond dywedodd yr ymatebydd arall ei fod yn teimlo ei fod wedi cael rhywfaint o hyfforddiant, ond nid ehangodd ar y pwynt hwn.

Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrïo ar yr adborth hwn i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo eu bod yn meddu ar hyfforddiant digonol i gyflawni eu dyletswyddau yn y practis deintyddol.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Disgrifiwyd gwahanol drefniadau ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis, gan gynnwys arolwg cleifion blynyddol. Roedd

blwch awgrymiadau ar gael i alluogi cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol i adael adborth yn ddiennw.

Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm. Roedd y practis yn rhoi gwybod i gleifion am y camau a gymerir o ganlyniad adborth gan arddangos hysbysebion 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros.

Gwelsom hysbysfwrdd penodol ar gyfer cwynion yn yr ardal aros gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer cwynion y practis yn cael eu harddangos. Roedd hyn yn nodi'r aelod o staff a oedd yn cael ei benodi i ymdrin â chwynion, ac roedd yn cynnwys manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt i gael help a chymorth. Gwelsom fod canllawiau Gweithio i Wella y GIG ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn fformatau eraill a oedd yn hawdd eu deall.

Gwelsom fod ffeil cwynion yn cael ei ddefnyddio i gofnodi a rheoli cwynion a gwelsom fod y broses ddatrys yn cael ei chofnodi drwyddi draw. Cawsom olwg ar sawl cwyn a gweld y cydymffurfir â gweithdrefnau'r practis, er y gwnaethom drafod y gallai'r ffeil gael ei threfnu'n well i helpu gydag unrhyw broses adolygu.

Gwelsom fod polisi addas ar waith yn y practis mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a oedd yn rhoi arweiniad clir i'r staff pe bai digwyddiad. Gwelsom fod y pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ac roeddent yn dangos dealltwriaeth dda pan gawsant eu holi. Cawsom wybod na fu unrhyw ddigwyddiad lle y bu angen arfer y broses Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwelsom brotocol rhoi gwybod am ddigwyddiad o bwys yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff a ffolder 'Digwyddiadau' yn cael ei reoli gan reolwr y practis. Roedd y broses Ddyletswydd Gonestrwydd a'r cynllun cerdyn melyn hefyd ar gael yn dibynnu ar y digwyddiad. Cawsom wybod y byddai'r rhain yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm ac yn cael eu cyfleu mewn ffordd briodol i bwyntiau cyswllt perthnasol y GIG.

Byddai'r wybodaeth hon ynghyd â chanlyniadau archwilio yn llywio'r cynlluniau gwella fel rhan o'r broses ffurflenni blynyddol.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod cynllun da ar gyfer archwiliadau ar waith fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Cawsom enghreifftiau gan gynnwys gwastraff clinigol, cofnodion clinigol, a mynediad i bobl anabl.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cwblhau archwiliadau rhagnodi meddyginiaethau gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i smygu drwy adnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer ymgysylltu rhwng y practis a darparwyr gofal sylfaenol eraill, gan hyrwyddo llesiant cleifion drwy sicrhau gofal iechyd cydlynol gwell yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys partneriaeth â phractis deintyddol lleol arall i gyflenwi ar gyfer triniaeth brys.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd unrhyw bryderon a ddatryswyd ar unwaith yn ystod ein harolygiad.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: **Risca Dental Practice**

Dyddiad yr arolygiad: **15 Hydref 2024**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Risca Dental Practice

Dyddiad yr arolygiad: 15 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Er y dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd pedwar ymatebydd nad oeddent yn gwybod.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.	Safon Ansawdd - Amserol	Rydym wedi adolygu eich sylwad. Ar hyn o bryd, gall cleifion ddod o hyd i'r wybodaeth hon drwy 1) taflen wybodaeth i gleifion 2) ffonio'r practis - mae'r wybodaeth hon i'w chael ar y neges peiriant ateb 3) ymweld â'r practis - mae'r wybodaeth ar gael ar y bwrdd gwybodaeth i gleifion y tu allan i'r practis	Gemma Rowlands (rheolwr y practis) ac Elizabeth Hancock (prif ddeintydd)	Wedi'i gwblhau 3/12/2024

			<p>4) holi aelod o'r tîm deintyddol</p> <p>Rydym wedi creu poster gwybodaeth â'r wybodaeth hon mewn print bras a chaiff ei arddangos yn yr ystafell aros</p>		
<p>Roedd asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion i weithredu arnynt.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau addas i ddatrys materion a godwyd yn yr asesiad risg a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'u cwblhau.</p>	<p>Rheoliad 22(4)</p>	<p>Gwnaethom dderbyn y cynllun gweithredu ar gyfer risgiau tân ar ddiwrnod arolygiad AGIC (gwnaethom argymell ar lafar ar y diwrnod y dylid cynnal asesiad risg)</p> <p>Cafodd y cynllun gweithredu ei adolygu gan Gemma Rowlands ac Elizabeth Hancock</p> <p>Y pwyntiau a godwyd:</p> <p>1) Gosod arwyddion clir ac effeithiol ar gyfer unrhyw sylweddau peryglus posibl sy'n cael eu storio ar y</p>		

			<p><i>safle; Rydym wedi mynd i'r afael â'r risg hon drwy roi nodyn ar ein ffenestri bod nwyon meddygol yn cael eu storio ar y safle a thrwy ychwanegu sticer ocsigen ar y cypyrddau argyfyngau meddygol</i></p> <p>2) Argymhellir mesurau diogelwch tân ychwanegol ar gyfer sylweddau peryglus: Rydym wedi mynd i'r afael â'r risg hon drwy roi nodyn ar ein ffenestri bod nwyon meddygol yn cael eu storio ar y safle a thrwy ychwanegu sticer ocsigen ar y cypyrddau argyfyngau meddygol</p> <p>3) Sicrhau bod labeli 'drws tân-cadwch ar</p>	<p>Gemma Rowlands (Rheolwr y Practis)</p> <p>Gemma Rowlands (Rheolwr y Practis)</p> <p>Gemma Rowlands</p>	<p>Wedi'i gwblhau 11/10/2024</p> <p>Wedi'i gwblhau 11/10/2024</p>
--	--	--	---	---	---

			<p>gau' ar ddwy ochr pob drws tân: Rydym wedi buddsoddi mewn sticeri ac maent wedi cael eu gosod ar bob drws tân</p>	(Rheolwr y Practis)	Wedi'i gwblhau 11/10/2024
			<p>4) Sicrhau bod labeli 'drws tân-cadwch dan glo' ar bob drws tân ar gypyrddau, storfeydd neu ystafelloedd cyfarpar: rydym wedi buddsoddi mewn sticeri ac maent wedi cael eu gosod ar bob drws tân dan sylw</p>	Gemma Rowlands (Rheolwr y Practis)	Wedi'i gwblhau 3/12/2024
			<p>5) Dylid cynnal arolwg annibynnol i sicrhau bod goleuadau allanfeydd mewn argyfwng yn cyrraedd y safon BS5266: rydym wedi trafod hyn â'n darparwr asesu risg - gan nad yw'r practis yn gweithredu gyda'r nos.</p>	Gemma Rowlands (Rheolwr y Practis)	Wedi'i gwblhau 3/12/2024

			<p><i>Mae gennym dortshis ar bob llawr ac yn ein bag ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân ac mae'r holl arwyddion ar gyfer allanfeydd tân yn goleuo yn y tywyllwch. Roedd y darparwr asesiad risg yn fodlon ar y goleuadau mewn argyfwng a ddarperir ond dywedwyd wrthym efallai y dylwn ystyried adolygu hyn gan fod oriau agor ein practis wedi cynyddu i amseroedd hwyrach.</i></p> <p>6) Gwnaethom argymell y dylid gosod arwyddion diogelwch tân ychwanegol: rydym wedi sicrhau bod ein 'Protocol Cynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng' yn</p>		
				Gemma Rowlands (Rheolwr y Practis)	Wedi'i gwblhau 11/10/2024

			<p><i>cael ei arddangos ar gyfer cleifion a staff ac mae wedi cael ei ychwanegu at ein ffolder gwybodaeth i gleifion</i></p> <p>7) Sicrhau bod nifer priodol o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar weithredu fel wardeniaid tân: Mae pob nyrs bellach wedi cwblhau hyfforddiant ar wardeiniaid tân ar-lein fel eu bod yn gallu cyflenwi dyletswyddau'r warden/dirprwy warden tân pan fyddant i ffwrdd o'r practis ar unrhyw gyfnodau salwch/gwyliau.</p> <p>8) Dylai'r holl staff y disgwylir iddynt ddefnyddio</p>	<p>Gemma Rowlands (Rheolwr y Practis)</p>	<p>Wedi'i gwblhau 15/10/2024</p>
--	--	--	--	---	--------------------------------------

			<p>diffoddwyr tân dderbyn digon o hyfforddiant: Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau cwrs hyfforddiant ar addysg tân ar-lein. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfarpar diffodd tân.</p> <p>Rydym yn aros am ohebiaeth mewn perthynas â chwrs 'hyfforddi'r hyfforddwr' er mwyn ein galluogi i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael digon o hyfforddiant wrth iddynt gael eu sefydlu a thrwy gydol y flwyddyn</p> <p>9) Mae angen gosod synwryddion/larymau carbon monocsid mewn ystafelloedd sy'n cynnwys offer</p>	Gemma Rowlands (Rheolwr y Practis)	15/10/2024
--	--	--	--	------------------------------------	------------

			<p>llosgi tanwydd megis boeler nwy yn unol â BS EN 50291: Mae synhwyrdd/larwm carbon monocsid wedi'i osod fel yr argymhellir 18/10/2024</p>	<p>Gemma Rowlands (Rheolwr y Practis)</p>	<p><i>Gosodwyd ar 18/10/2024</i></p>
<p>Gwelsom ddau gofnod lle nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi a allai eu hatal rhag cael gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.</p>	<p>Rheoliad 13(1)(a)</p>	<p>Fel practis, ein nod yw casglu cymaint o ddata gan gynnwys dewis iaith pob claf. Fel arfer, caiff y dewis hwn ei gofnodi ar brif sgrin y claf, ac weithiau caiff ei ysgrifennu ar nodiadau/cofnodion dros dro y claf a gofynnir i gleifion am hyn wrth iddynt gwblhau ffurflen hanes meddygol ar bapur. Nid yw hwn yn gwestiwn a ofynnir gan ein meddalwedd porth.</p> <p>Rydym wedi trafod hyn fel tîm ac rydym wedi cymryd y camau gweithredu canlynol:</p>	<p>Gemma Rowlands (rheolwr y practis) ac Elizabeth Hancock (prif ddeintydd)</p>	<p>Wedi'i gwblhau 3/12/2024</p>

			1) Rydym wedi addasu ein nodiadau templed fel ein bod yn gofyn ac yn cofnodi dewis iaith y claf yn ystod pob triniaeth.		
Roedd un aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo ei fod ond wedi cael rhywfaint o hyfforddiant i gyflawni ei rôl, ond ni ehangodd ar y pwynt hwn.	Gwnaethom argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar yr adborth hwn i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo eu bod yn meddu ar hyfforddiant digonol i gyflawni eu dyletswyddau yn y practis deintyddol.	Rheoliad 13(2)(b)	<p>Rydym wedi trafod â phob aelod o'r tîm - nid oes unrhyw un yn cofio rhoi tic yn y blwch hwn.</p> <p>Mae pob aelod o'r tîm yn gymwysedig ar gyfer eu rôl oni bai am un nyrs sy'n cael hyfforddiant - bydd yn cwblhau ei harholiad ar 12 Rhagfyr 2024.</p> <p>Rydym wedi cynnig hyfforddiant pellach i bob aelod o'r staff am eu bod yn teimlo ei fod yn hanfodol.</p> <p>Mae'r practis hefyd yn talu am danysgrifiad blynyddol i lwyfan ar-lein ar gyfer cyrsiau sy'n briodol i rôl yr unigolyn</p>	Gemma Rowlands (rheolwr y practis) ac Elizabeth Hancock (prif ddeintydd)	Wedi'i gwblhau 3/12/2024

			ac anogir aelodau o'r tîm i gwblhau cyrsiau/DPP i ddatblygu eu gwybodaeth/sgiliau, e.e. nyrsys yn defnyddio farnais fflworid.		
--	--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Gemma Rowlands a Dr Elizabeth Hancock

Teitl swydd: Rheolwr y practis a'r Prif Ddeintydd

Dyddiad: 11/12/2024